

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Sut i adeiladu abwydfa



## Y cyfarpar sydd ei angen

- Potel ddiod blastig fawr
- Tywod
- Trywel
- Pridd
- Mwydod / Pryfed genwair
- Dail
- Sgiwer neu rywbeth miniog
- Siswrn
- Cerdyn neu bapur tywyll




- Torrwch ben y botel blastig i ffwrdd a gwnewch dyllau bach yng ngwaelod y botel a rhan o'r ffordd i fyny.
- Gan ddefnyddio'r trywel, rhowch ychydig o bridd yng ngwaelod y botel gan ffurfio haenen ar y gwaelod (tua 5cm).
- Yna, rhowch haenen fach o dywod ar ben y pridd – gofalwch nad yw'r haenau tywod yn rhy drwchus. Yna, rhowch haen o ddail ar ben y tywod.
- Dilynwch y broses hon nes eich bod chi bron wedi cyrraedd pen y botel, a gorffennwch gyda haenen o ddail.
- Find some worms and put about 5-10 into your wormery.
- Ewch i chwilio am fwydod neu bryfed genwair a rhowch tua 5 i 10 ohonynt yn eich abwydfa.
- Abwydfa dros dro yn unig yw hon, ac ni ddylech ei chadw am fwy nag wythnos. Dylech yna roi'r mwydod yn ôl yn y pridd. Os na wnewch chi hyn, mae'n bosibl na fyddant yn goroesi.
- Er na fyddwch chi'n gweld yr effaith lawn mewn wythnos, dylech allu gweld fod y mwydod wedi dechrau gwneud twneli a bod yr haenau'n dechrau cymysgu.

